Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 15 HYDREF 2008

Braf yw gweld arddangosfa ***'Gwledydd'*** yn ei le erbyn hyn - yr wyf wedi sôn eisoes wrthych am y darn o gelf y mae croeso i chi gyfrannu ato. Cofiwch hefyd alw mewn i weld y darnau - bosib ddowch chi o hyd i anrheg 'Dolig ymysg y darnau sydd ar werth.

Cofiwch hefyd am y ddrama ***"The Other Woman"*** sy'n cael ei pherfformio yma nos yfory (29 Hydref) - mae'n dechrau am 7.30 ac mae tocynnau'n costio £6 (£4 gostyngol). Mae'n ddrama bwerus sy'n edrych ar oblygiadau eraill rhyfel a sut y mae'r bobl sy'n cael eu gadael ar ôl yn ymdopi.

Y digwyddiad pwysicaf nesaf gan Morlan yw anerchiad gan Syr Emyr Jones Parry (cyn-gynrychiolydd Prydain yn y CU a Llywydd Prifysgol Cymru Aberystwyth) ar y thema ***'Pam fod dal angen y Cenhedloedd Unedig ar ôl 60 mlynedd'***. Bydd yn annerch yn Saesneg ond bydd cyfle i holi cwestiynau ar y diwedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Dyma gychwyn ar gyfres o ddigwyddiadau y mae Morlan yn ei threfnu i ddathlu chwedegmlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Maent yn cynnwys:

- Nos Fercher, 3 Rhagfyr: *"60 Mlynedd o Hawliau Dynol?"* – noson gymdeithasol o ganu a thrafod gyda Chôr Gobaith
- Nos Fercher, 10 Rhagfyr: *"Canu dros Hawliau Dynol"* – gig gyda Gruff Rhys ac Euros Childs
- Nos Sadwrn, 13 Rhagfyr: "*O Blith fy Mhobl"* – cyflwyniad gan Gwmni'r Morlan

Nodir isod gweddill y digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

- 10.30-12.30, dydd Sadwrn, 8 Tachwedd: **Bore Coffi** i godi arian i alldaith criw o fechgyn lleol i Dde America i gynorthwyo â phrosiectau trydydd byd
- 10.30-4.00, dydd Sadwrn, 15 Tachwedd: **Cynhadledd Genedlaethol Amnest Rhyngwladol Cymru** yn cynnwys anerchiadau a gweithdai a pherfformiadau gan Gôr Gobaith a Samba Agogo
- 6.00, nos Sul, 16 Tachwedd: **Gwasanaeth Amnest** (arwyddo cardiau Nadolig i garcharorion cydwybod)
- 7.30, nos Lun, 24 Tachwedd: **Dweud ei Ddweud** gyda'r Parch. Gwynn ap Gwilym ar y thema ***'Y Rhwyg yn yr Eglwys'***
- 2.00-5.00, dydd Mercher, 26 Tachwedd: **Fforwm Pobl 50+** (Cyngor Sir Ceredigion)
- 7.00, nos Fercher, 26 Tachwedd: **Trafodaeth ar ryfeloedd** (Iraq, Afghanistan ...) a sut mae rhoi terfyn arnynt. Cadeirydd: Cynog Dafis (trefnwyd gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth)

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr